



Cyngor Caerdydd

**Deiliaid Trwydded Tacsis a Cherbydau Llogi Preifat
Canllawiau Covid-19**

15 Gorffennaf 2020

Canllaw Covid-19 i Ddeiliaid Trwydded Tacsis a Cherbydau Llogi Preifat

Mae gweithredwyr tacsis a cherbydau llogi preifat yn darparu gwasanaeth hanfodol i'r cyhoedd ac yn unol â chanllawiau presennol y Llywodraeth gallant barhau i weithredu. Os ydych chi'n yrrwr tacsï sy'n gweithio yn ystod argyfwng COVID-19, mae'n siŵr eich bod yn poeni am eich iechyd a'ch diogelwch eich hun yn ogystal â rhai eich teithwyr.

Mae'r sefyllfa'n newid yn barhaus ac felly cynghorir teithwyr, gyrwyr a gweithredwyr i sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r canllawiau teithio diweddaraf. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi [gwybodaeth am y coronafeirws](#) (COVID-19) a [chynghor teithio a thrafnidiaeth](#) a chanllawiau i [deithwyr](#) a [gweithredwyr](#).

Mae dyletswydd ar yrwyr a gweithredwyr i gymryd gofal rhesymol am ddiogelwch eu teithwyr ac felly fe'u cynghorir i droi'r egwyddorion a'r enghreifftiau yng nghanllawiau'r Llywodraeth yn gamau gweithredu penodol.

Bydd dilyn y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â hylendid a chadw pellter cymdeithasol yn helpu i'ch cadw chi a'ch cwsmeriaid yn fwy diogel.

- Peidiwch â gweithio fel gyrrwr neu deithio fel teithiwr os oes COVID-19 gennych, os oes unrhyw un o'r [prif symptomau](#) arnoch neu os credwch eich bod wedi dod i gysylltiad â'r feirws drwy deithiwr (neu rywle arall).
- Sicrhewch fod y cerbyd wedi'i awyru'n dda: agorwch y ffenestri os yw'n gyfforddus a pheidiwch â galluogi'r system aerdymheru i ailgylchredeg yr awyr.
- Dilynwch [ganllawiau cadw pellter cymdeithasol](#) ac osgoi cyswllt corfforol: defnyddiwch daliadau digyswllt lle y bo'n bosibl.
- Golchwch eich dwylo'n rheolaidd a pheidiwch â chyffwrdd â'ch wyneb. Efallai y bydd gyrwyr yn dymuno bod â diheintydd dwylo a hancesi wrth law iddynt hwy eu hunain a'u teithwyr.
- Ar ôl pob cwsmer, dylai'r cerbyd gael ei lanhau'n drylwyr gan ddefnyddio chwistrell diheintio, yn arbennig yr arwynebau y mae cwsmeriaid yn debygol o'u cyffwrdd, fel handlenni a chlipiau gwregysau diogelwch.
- Cynghorir gyrwyr i lanhau'r rhannau o'r cerbyd y maent yn eu cyffwrdd yn rheolaidd ychydig o weithiau drwy gydol y dydd a bob amser ar ddechrau a diwedd pob shift. Mae hyn yn cynnwys handlenni drysau, olwyn lywio, brêc llaw a switshis.

- [Nid yw Masgau Wyneb](#) yn orfodol mewn cerbydau hacni a llogi preifat yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu nad yw gwisgo gorchudd wyneb yn eich diogelu, ond gall ddiogelu eraill os ydych wedi'ch heintio. Dylid egluro bod gofyniad i deithwyr wisgo masg wyneb cyn derbyn archeb. Mae'n bwysig bod teithwyr yn gallu eich adnabod fel gyrrwr cyfreithlon. Felly, byddwch yn barod i dynnu gorchuddion wyneb fel y gall teithwyr gadarnhau mai chi yw'r person ar eich bathodyn trwydded a ddangosir, gan ddilyn canllawiau cadw pellter cymdeithasol priodol.
- Bu cynnydd o ran diddordeb yn y defnydd o sgriniau fel ffordd o greu gwahaniad corfforol rhwng gyrrwyr a theithwyr er mwyn lleihau trosglwyddiad COVID-19. Nid oes unrhyw dystiolaeth ar gael sy'n dangos bod partisiynau mewn tacsis neu gerbydau llogi preifat yn lleihau'r risg o drosglwyddo haint COVID-19, ond gall fod canlyniadau o ran yr hyn a allai ddigwydd y tu mewn i'r cerbyd pe bai gwrthdrawiad. Mae'n bwysig bod unrhyw sgrîn amddiffynnol wedi'i osod yn ddiogel ac nad yw'n cyflwyno peryglon diogelwch newydd ac anfwriadol. Ar hyn o bryd, nid yw'r Cyngor yn bwriadu gwneud gosod sgriniau yn ofyniad. Byddai gyrrwyr sy'n dymuno gosod sgrîn wneud hynny yn unol â pholisi'r Cyngor ar osod sgrîn diogelwch dros dro mewn cerbydau llogi preifat gan gynnwys cael caniatâd gan yr adran drwyddedu. Mae'r polisi i'w weld yma.

Nid oes unrhyw rwymedigaeth ar weithredydd cerbyd llogi preifat i fynd i gontract i ddarparu cerbyd llogi preifat i unrhyw un, ar yr amod nad yw gwrthodiad o'r fath yn seiliedig ar nodwedd a ddiogelir dan [a. 4 Deddf Cydraddoldeb 2010](#) (oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gredo, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol). Gellir dod o hyd i arweiniad pellach ynghylch pryd y byddai'n rhesymol gwrthod cludo teithiwr ar wefan y [sefydliad trwyddedu](#).

Ceir mwy o wybodaeth ar wefan [Llywodraeth Cymru](#).

Polisi Sgriniau Dros Dro Mewn Tacsis a Cherbydau Llogi Preifat

Crynodeb

1. Yn unol amodau trwyddedau'r Cyngor, mae angen i unrhyw newidiadau i gerbydau gael eu cymeradwyo gan yr awdurdod trwyddedu. Os yw gyrrwr/gweithredwr am osod sgrîn dros dro, dylent ddilyn y Weithdrefn Gymeradwyo isod.
2. Cyfrifoldeb y gyrrwr/gweithredwr yw sicrhau bod y ddyfais a osodir yn cydymffurfio â rheoliadau'r Llywodraeth a'r diwydiant, ei bod yn addas at y diben ac nad yw'n cyfaddawdu diogelwch y cyhoedd.
3. Mae angen glanhau sgriniau'n rheolaidd a'u cynnal a'u cadw'n briodol
4. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i fynnu cael gwared ar unrhyw sgriniau os oes pryderon ynghylch eu diogelwch, eu haddasrwydd at y diben neu'u cydymffurfiad â deddfwriaeth iechyd a diogelwch.

Cyflwyniad

5. Oherwydd pandemig y Coronafeirws, rydym wedi derbyn ymholiadau yn ddiweddar gan yrwyr ynghylch gosod sgriniau amddiffynnol yn eu cerbydau rhwng y seddi blaen a chefn.
6. Mae partisiynau neu sgriniau diogelwch yn creu rhwystr corfforol rhwng gyrrwyr a theithwyr yn y cerbyd. Fe'u gosodir yn gyffredin fel nodwedd diogelwch i amddiffyn y gyrrwr rhag ymosodiadau corfforol neu ladrad. Bu cynnydd o ran diddordeb yn y defnydd o sgriniau fel ffordd o greu gwahaniad corfforol rhwng gyrrwyr a theithwyr er mwyn lleihau trosglwyddiad COVID-19.
7. Nid oes unrhyw dystiolaeth ar gael sy'n dangos bod partisiynau mewn tacsis neu gerbydau llogi preifat yn lleihau'r risg o drosglwyddo haint COVID-19. Nid yw partisiynau mewn tacsis na cherbydau llogi preifat yn creu adran wedi'i selio'n llawn sy'n gwahanu'r gyrrwr yn llwyr oddi wrth y teithiwr. Felly, er ei bod yn bosibl y gallai partisiynau leihau'r risg o drosglwyddo haint, ni fyddai'r risg yn cael ei dileu'n gyfan gwbl.
8. Mae'r Tîm Trwyddedu'n gwerthfawrogi bod unrhyw beth sy'n helpu i ddiogelu gyrrwyr a theithwyr rhag lledaeniad y coronafeirws i'w groesawu, ond mae'n bwysig bod

unrhyw offer yn cael ei osod yn ddiogel ac nad yw'n cyflwyno peryglon diogelwch newydd ac anfwriadol.

9. Ar ôl cynnal profion diogelwch cynhwysfawr, bydd cerbydau wedi llwyddo i gael Cymeradwyaeth Math Cerbyd Cyfan Ewropeaidd, a gall newid neu ychwanegu at y tu mewn i'r cerbyd newid 'cymeradwyaeth math' y cerbyd. Yn ogystal, gallai unedau sydd wedi'u gosod yn wael ac sydd wedi'u hadeiladu'n amhriodol, neu gynhyrchion sydd wedi'u gwneud o ddeunyddiau anniogel, gael effaith drychinebus pe bai cerbyd mewn damwain ffordd.
10. Mae'r Cyngor yn ymwybodol bod cwmnïau yn hysbysebu bod y gosodiadau '*wedi cael asesiad risg llawn*', ond nad ydynt yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol. Dylai gyrrwyr hefyd fod yn ymwybodol y gallai gosod sgriniau hefyd effeithio ar allu'r cerbyd i basio MOT, megis lle maent yn cyfyngu ar symudiad y seddi blaen. Cynghorir gyrrwyr i gysylltu â'r awdurdod trwyddedu cyn talu costau gosod sgrîn nad yw'n cydymffurfio o bosibl ac a allai fod yn anniogel.
11. Mae amodau trwydded y Cyngor yn nodi:

Addasiadau i gerbydau

Ni wneir unrhyw addasiad neu newid materol i fanyleb, dyluniad, adeiladwaith neu olwg y cerbyd heb gymeradwyaeth yr Awdurdod.

12. Am y rhesymau hyn, cyn gosod unrhyw ddyfais sgrinio yn eich cerbyd yn wirfoddol, mae'n rhaid i chi wneud cais am gymeradwyaeth i osod sgrîn dros dro gan ddilyn y weithdrefn isod.

Gofynion Cyffredinol

13. Y gyrrwr, y perchennog a/neu'r gweithredwr ddylai wneud y penderfyniad i osod sgrîn ddiogelwch ar ôl cynnal eich asesiad risg eu hunain. Oherwydd yr amrywiaeth eang ac amrywiol o gerbydau a gwahanol fathau o sgriniau diogelwch sydd ar gael, nid oes modd cynnig cyngor penodol ar brynu neu osod y dyfeisiau hyn, ond mae angen bodloni'r gofynion sylfaenol canlynol:
 - a. Rhaid i'r ddyfais gael ei chynhyrchu fel sgrîn ddiogelwch o fewn cerbyd a rhaid iddi fod yn addas ar gyfer gwneuthuriad a model penodol y cerbyd.

- b. Ni ddylai gosodiad a/neu ddyluniad y ddyfais ddylanwadu'n negyddol nac yn ymyrryd â'r cadernid strwythurol neu'r systemau diogelwch gyrrwr a theithiwr (gan gynnwys bagiau awyr) yn y cerbyd. Yn benodol
 - i. Peidio â rhoi teithwyr a/neu'r gyrrwr mewn perygl diangen yn ystod gwrthdrawiad a/neu pan fydd y cerbyd yn cael ei ddefnyddio'n gyffredinol fel tacsï neu gerbyd llogi preifat.
 - ii. Peidio ag ymyrryd â gweithrediad diogel y cerbyd a/neu nodweddion diogelwch y cerbyd ar unrhyw adeg.
 - iii. Peidio â chuddio nac ymyrryd ar olwg y gyrrwr a/neu'r teithwyr mewn unrhyw ffordd.
 - c. Rhaid i'r sgriniau gael eu gosod yn ddiogel a'u cynnal a'u cadw yn unol â manylbau ac argymhellion y gweithgynhyrchydd
 - d. Dylai'r dyfeisiau barhau i fod yn rhydd o grafiadau, cymylu neu sticeri a fyddai'n amharu ar welededd y gyrrwr neu'r teithiwr.
 - e. Ni ddylai sgriniau amharu ar symudiad y gyrrwr na'i gyfathrebu â theithwyr.
 - f. Ni ddylai sgriniau rwystro y gyrrwr na'r teithwyr rhag mynd i mewn nag allan o'r cerbyd na chyflwyno perygl baglu.
14. Os ydych wedi gosod sgrîn ddiogelwch yn eich cerbyd, sicrhewch eich bod yn glanhau'r sgrîn ar ôl pob taith, ynghyd ag arwynebau caled eraill megis handlenni drysau, dolenni ffenestri, gwregysau diogelwch, dyfeisiau talu, y seddi cefn neu'r seddau blaen ac arwynebau eraill, y gallasai teithwyr fod wedi cyffwrdd â nhw gan ddefnyddio diheintydd cartref arferol. Yna dylai gyrrwr olchi/diheintio eu dwylo eu hunain. Dylid glanhau'r cerbyd yn drylwyr gyda'r cynhyrchion glanhau arferol ar ddiwedd pob shift/diwrnod gwaith.
15. Bydd y perchennog yn sicrhau bod y sgrîn ddiogelwch yn cael ei chynnal a'i chadw'n briodol ac yn rheolaidd, yn unol â chyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchydd gan berson cymwys addas. Caiff cofnodion ysgrifenedig o'r holl waith cynnal a chadw a gwasanaethu eu gwneud gan y perchennog a'u cadw am o leiaf 12 mis. Bydd cofnodion ysgrifenedig o'r fath ar gael ar gais swyddog awdurdodedig y Cyngor, neu gan un o swyddogion yr heddlu.

Y Weithdrefn Gymeradwyo

16. Os ydych yn dymuno gosod sgrîn amddiffynnol bydd angen i chi wneud cais i'r Cyngor yn tacsi@caerdydd.gov.uk gan gadarnhau:

- a. Y caiff y gosodiad ei wneud yn unol â gofynion y polisi hwn.
- b. Y bydd eich yswiriant yn ddilys o hyd os byddwch yn gosod sgrîn amddiffynnol.
- c. Y bydd y cynnyrch i gael ei osod yn cydymffurfio â rheoliadau'r llywodraeth a'r diwydiant ac na fydd yn cyfaddawdu diogelwch y cerbyd. Mewn amgylchiadau lle mae gan yr Awdurdod Trwyddedu bryderon ynglŷn â diogelwch y gosodiad, mae'n bosibl y bydd angen i gorff profi cerbydau annibynnol perthnasol (sy'n cael ei gydnabod a'i gymeradwyo gan yr Awdurdod Trwyddedu) gynnal profion eraill ar y sgrîn, a all brofi diogelwch ac addasrwydd y sgrîn a'r broses osod ar gyfer eich model cerbyd penodol. Nodwch nad yw prawf MOT yn brawf annibynnol perthnasol.

17. Pan fydd yr Awdurdod yn fodlon bod y gosodiad arfaethedig yn bodloni'r meini prawf uchod caniateir i chi osod sgrîn ddiogelwch yn eich cerbyd.

18. Ardystiad gan y gosodwr, neu gais am Archwiliad gan Swyddog Trwyddedu awdurdodedig i brofi bod y gosodiad yn cydymffurfio ag:

- a. Ardystiad gan y gosodwr neu dystiolaeth arall i brofi bod y gosodiad yn cydymffurfio â:
 - i. Rheoliadau'r llywodraeth neu'r diwydiant, er enghraifft Rheoliadau Cerbydau'r Ffordd (Adeiladu a Defnyddio) a deddfwriaeth ddiogelwch a Chymunedol y DU ac Ewropeaidd berthnasol;
 - ii. Safon ECE/EU perthnasol y CU ar gyfer prawf cymeradwyo math offer gwreiddiol sy'n cynnwys gosodiadau mewnol. Dylai unrhyw sgrîn sydd wedi'i gosod yn y cerbyd yn y fath fodd fel y gallai effeithio ar gadernid strwythurol y cerbyd neu ar weithrediad diogel System Atal Atodol y cerbyd (bagiau aer) gael ei chymeradwyo gan gorff profi cerbydau

annibynnol perthnasol (sy'n cael ei gydnabod a'i gymeradwyo gan yr Awdurdod Trwyddedu), a all brofi diogelwch ac addasrwydd y sgrîn a'r broses osod ar gyfer eich model cerbyd penodol. Nodwch nad yw prawf MOT yn brawf annibynnol perthnasol.

- b. Ffotograff(au) o'r partisiwn neu'r sgrîn wedi'i gosod/osod yn y cerbyd.
 - c. Copi o e-bost perchennog/gweithredwr y cerbyd i'r cwmni yswiriant a chydabyddiaeth y cwmni yswiriant bod yr yswiriant yn ddilys o hyd.
19. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i fynnu i'r sgrîn gael ei thynnu os nad yw'n fodlon ei bod yn ddiogel, yn addas at y diben nac yn cydymffurfio'n gyfreithiol.
20. Gall y Cyngor fandadu tynnu sgriniau maes o law Bydd unrhyw benderfyniad i dynnu sgriniau yn cael ei ystyried mewn cyfarfod o Bwyllgor Diogelu'r Cyhoedd yn y dyfodol a bydd yn destun ymgynghoriad â'r fasnach cyn i benderfyniad gael ei wneud.